TravelSmart
Adolygiad Prosiect

Rhagymadrodd gan **Sustrans**

TravelSmart yw'r allwedd i rai o heriau mwyaf yr unfed ganrif ar hugain: lleihau'r defnydd o'r car preifat ac allyriadau carbon deuocsid, llygredd a thagfeydd cysylltiedig, a chynyddu lefelau gweithgaredd corfforol bob dydd.

Mae TravelSmart yn cyflawni pob un o'r rhain drwy roi gwybodaeth a chefnogaeth wedi ei theilwra sydd eu hangen ar bobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy aml. Gelwir hyn yn Marchnata Teithio Unigol neu ITM.

Ac mae wir yn gweithio. Ers ein prosiectau peilot cynharaf mae TravelSmart wedi llwyddo i leihau defnydd o'r car lle bynnag y mae wedi gweithredu gan 10%-14%. Mae'n un o'r rhaglenni mwyaf llwyddiannus yn unrhyw le yn y byd o ran galluogi pobl i adael eu car gartref a theithio ar droed, beic, bws a thrên.

Mae'n syndod pa mor gadarn yw'r gred fod newid ymddygiad teithio pobl yn anodd. Mae TravelSmart yn dangos ei fod yn ddigon syml, o ddefnyddio'r ymddygiad, technegau, tystiolaeth a'r offer cywir. Mae pobl yn barod iawn i newid eu hymddygiad teithio pan gânt y wybodaeth a'r ysgogiad sydd eu hangen arnynt er mwyn iddynt gael y dewis o deithio mewn ffordd wahanol.

Os rhowch amseroedd a chyrchfannau'r bws sy'n galw rownd y gornel i bobl, byddant yn gallu ei ddefnyddio. Rhowch fap i bobl o'u llwybrau cerdded a beicio lleol a sut y mae'r rhain yn cysylltu i'r siopau lleol,

yr ysgol, gorsaf drenau, llyfrgell, gwaith a ffrindiau, a byddant yn dewis cerdded neu feicio ar gyfer siwrneiau y byddant fel arall yn eu gyrru mewn car.

Mae ymagwedd TravelSmart wedi ei phrofi. Mae'n gwneud yn siŵr fod canlyniadau yn gyson, beth bynnag fo nifer y cartrefi, beth bynnag fo'r ddemograffeg, a lle bynnag fo'r dref neu'r ddinas. Mae hefyd yn fforddiadwy. Am gost arferol o tua £25 am bob cartref, mae cymhareb budd-cost TravelSmart yn 8:1 o gymharu â mentrau adeiladu ffyrdd neu isadeiladol eraill sy'n tueddu i fod â chymhareb o 2:1 neu lai.

Cyflawnir canlyniadau cyson a chost-effeithiolrwydd, yn bennaf, oherwydd bod ymagwedd TravelSmart wedi ei seilio ar gyfoeth o ymchwil ar ymddygiad teithio. Mae deall ymddygiad teithio yn hanfodol os ydym yn mynd i'w newid, ac mae gwerthusiad iawn yn hollbwysig os ydym i wybod bod yr hyn yr ydym wedi ei wneud wedi cael effaith.

Er enghraifft, dangosodd ein harolygon, yn cynnwys rhagor na 12,000 o gyfranogwyr yn Nhrefi Teithio Cynaliadwy Lloegr (Darlington, Peterborough a Chaerwrangon), y gallai bron i hanner y teithiau mewn car gael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy heb unrhyw newidiadau i'r isadeiledd presennol. Mae hyn yn golygu potensial anferthol ar gyfer newid sy'n aros i ni fanteisio arno.

A thra bod pob prosiect TravelSmart yn cael ei werthuso yn drwyadl gan ddefnyddio technegau ymchwil arfer gorau a ddatblygwyd gan ein partneriaid yn Socialdata, mae yna hefyd nifer o astudiaethau annibynnol sy'n cefnogi ymagwedd TravelSmart. Mae adroddiad dylanwadol yr Adran Drafnidiaeth, 'Smarter Choices' (2005), yn rhoi tystiolaeth gref o gost-effeithiolrwydd TravelSmart o'i gymharu ag amrywiaeth o fesurau newid ymddygiad teithio eraill. Yna yn 2007 adolygodd yr Adran Drafnidiaeth holl werthusiadau ITM y DU ers 2005. O'r 12 prosiect yn adrodd ar effeithiau mesuradwy ddefnydd car, defnyddiodd 11 ymagwedd TravelSmart a gwerthuswyd y gwerthusiad yn gadarnhaol iawn.

Mae TravelSmart yn ateb gwerth am arian ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain i ffyrdd gor-boblogedig mewn trefi a dinasoedd ledled y DU. Mae'n rhaid mai cyflawni gostyngiad gan o leiaf 10% mewn defnydd car, heb orfod ymestyn nac ehangu ffyrdd, a thrwy ddefnyddio'r ddarpariaeth cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus bresennol, yw nod pawb sy'n gweithio ym maes polisi a chyflenwi trafnidiaeth, heb son am y Trysorlys.

Os ychwanegwch y manteision i'n hamgylchedd, ein hiechyd a'n cymunedau, mae TravelSmart yn symud y tu hwnt i Smarter Choices i ddod yn ateb synnwyr cyffredin.

Malcolm Shepherd
Prif Weithredwr,
Sustrans

Beth yw TravelSmart?

TravelSmart yw'r chwyldro teithio ar garreg eich drws. Yn seiliedig ar broses a elwir yn Marchnata Teithio Unigol (ITM), mae'n amlygu dewisiadau teithio nad yw pobl yn gwybod sydd yno iddynt. Mae ein timau yn siarad â chartrefi unigol ac yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth sy'n berthnasol yn lleol. Maent yn ysgogi pobl i ystyried eu harferion teithio o ddydd i ddydd ac i roi cynnig ar newidiadau bach sydd yn aml yn gwneud bywyd yn haws a theithio yn fwy o hwyl. Mae gan brosiectau TravelSmart, wedi eu darparu mewn partneriaeth â'r sefydliad trafnidiaeth ac ymchwil cymdeithasol blaengar, Socialdata, ymagwedd canolbwyntio ar y cwsmer unigryw sy'n hollbwysig i'w llwyddiant. Dyma sut yr ydym yn helpu pobl i wneud dewisiadau teithio mwy gwybodus a chyflawni gostyngiadau cyson yn y defnydd ar y car.

Segmentiad - mae'r broses ITM yn dechrau gyda chyswllt personol, naill ai dros y ffôn neu ar garreg y drws, gyda chartrefi yn ardal y prosiect. Yn seiliedig ar ein sgwrs gychwynnol gyda hwy rhennir y cartrefi yn dri prif grŵp: defnyddwyr rheolaidd dulliau teithio cynaliadwy; defnyddwyr anrheolaidd sydd â diddordeb mewn dysgu rhagor am deithio cynaliadwy; a'r rheiny sydd â dim diddordeb mewn cymryd rhan.

Gwybodaeth - mae'r rhan fwyaf o ymgyrch ITM yn canolbwyntio ar y grŵp 'sydd â diddordeb'. Rhoddir ffurflen archebu i'r cartrefi hyn lle gallant ddewis y deunyddiau a'r gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion o ran trafnidiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys mapiau cerdded a beicio, amserlenni bysiau a threnau, arweinlyfrau, cyngor teithio egnïol a chardiau disgownt ar gyfer siopau beiciau a siopau gweithgareddau awyr agored lleol. Yna caiff pecyn wedi ei bersonoli ar gyfer pob cartref ei ddosbarthu â llaw gan ein staff lleol. Cynigir cefnogaeth bellach i bobl nad sydd fel arfer yn defnyddio dulliau teithio cynaliadwy, yn cynnwys sesiynau cyngor yn y cartref ar gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus gydag arbenigwr lleol. Cynigir gwobr fechan i ddefnyddwyr rheolaidd i ddiolch iddynt am deithio'n gynaliadwy a chynigir y cyfle iddynt gael pecyn wedi ei bersonoli os dymunant gael un.

Cyfarfod Andy Rowe, Swyddog Prosiect TravelSmart yng Nghaerwysg

Beth ydych chi'n ei fwynhau am y swydd?
Rydw i wrth fy modd gyda'r her o gydlynu gwahanol agweddau o'r prosiect, o ymweliadau cartref a rheoli staff i dderbyn a rheoli stoc.

Rydw i hefyd yn hoffi'r ffordd y mae TravelSmart yn ymgysylltu â phobl, gan adael iddynt fynegi eu barn ar faterion yn ymwneud â theithio. Mae'n iachus iawn i Sustrans gael gwybod am y rheiny nad sydd yn ymwneud â'r mudiad amgylcheddol neu sy'n wrthwynebus iawn iddo. Mae'n cadw eich syniadau ynghylch teithio cynaliadwy mewn persbectif, yn hogi eich sgiliau trafod ac yn aml yn eich annog i ail-archwilio eich barn eich hun.

A yw Caerwysg yn lle da i gynnal prosiect TravelSmart?
Yn sicr. Mae Caerwysg yn dref brydferth sydd â llwybrau cerdded gwych a gwasanaeth bysiau cryf. Hi hefyd oedd un o'r Trefi Arddangos Beicio cyntaf ac rydym wedi bod yn ffodus dros ben i gael gweithio gyda thîm Beicio Caerwysg. Maent wedi creu gwir gyffro ynghylch beicio, ac mae pobl ar garreg y drws wedi bod yn awyddus i gael gwybod rhagor.

Moment orau yn y swydd?
Rydw i'n cofio pan wnaeth Toni o TravelSmart siarad â'r cartref cyntaf un iddi alw ynddo yn ôl ym mis Ebrill 2008. Felly roedd hi'n teimlo fel cyflawniad gwirioneddol pan wnaethom gwblhau cam cyntaf y prosiect yn llwyddiannus, a chael effaith gadarnhaol ar arferion teithio cynifer o bobl.

Mae TravelSmart **yn gweithio**

O'i gyflwyno ledled y DU, byddai TravelSmart yn arbed tua

0.9 miliwn tunnell fetrig o garbon y flwyddyn

Mae TravelSmart yn gyson yn cyflawni

gostyngiadau mewn teithiau car gan 10% neu fwy

Mae prosiectau TravelSmart yn

lleihau teithio mewn ceir

gan rhwng 740km a 1,400km y flwyddyn ar gyfer pob cartref



Ffynhonnell: Sustrans a Socialdata, 2008.

Mae gan brosiectau TravelSmart gymhareb budd-cost o 7.6 i 1, sy'n golygu bod

pob £1 a warir yn arbed £7.60

ar redeg ceir, cynnal a chadw ffyrdd, darparu gwasanaethau iechyd a chostau eraill teithio anghynaliadwy

Dengys arolygon fod TravelSmart yn arwain at

newid ymddygiad teithiol parhaol

Pam fod TravelSmart yn gweithio:

- mae'r rhan fwyaf o deithiau bob dydd pobl yn lleol
- mae chwarter holl siwrneiau car yn llai na dwy filltir
- mae'r rhan fwyaf o bobl yn poeni am dwf traffig ac yn cefnogi polisïau sy'n ffafrio cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn teithio mewn car
- gellid disodli tua hanner y teithiau car lleol gyda siwrneiau cynaliadwy gan ddefnyddio cyfleusterau sy'n bodoli eisoes
- diffyg gwybodaeth am y dewisiadau eraill i'r car, a'r ysgogiad i roi cynnig arnynt, yw'r prif rwystrau i newid.

Mae TravelSmart yn **cyflawni**

Mae TravelSmart yn gyson yn cyflawni gostyngiadau mewn teithiau car gan 10% neu fwy, drwy gynyddu lefelau cerdded a beicio, a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.



* Ni chaiff % y newidiadau eu haddasu ar gyfer newid i'r grŵp rheoli ar gyfer y prosiectau hyn oherwydd y dulliau a ddefnyddir mewn gwerthuso'r ymgyrchoedd ITM dinas-gyfan hyn.

Nid dim ond yn y lefelau is o ddefnydd car y gwelir effeithiau prosiectau TravelSmart ond hefyd yn iechyd a lles y rheiny sy'n cymryd rhan. Nid oes yn rhaid i chi dderbyn ein gair ni yn unig. Mae'r ddwy stori isod yn nodweddiadol o'r adborth yr ydym yn ei dderbyn gan unigolion a theuluoedd ledled y DU.

Lowestoft

Roedd Sarah Northgraves yn awyddus i'w theulu cyfan ddod yn fwy egnïol, yn cynnwys ei mab ifanc Ollie. Fe wnaeth y pecyn gwybodaeth wedi ei bersonoli a dderbyniodd gan dîm TravelSmart agor posibiliadau newydd ar gyfer y teulu. "Roedd y map beicio yn ddefnyddiol iawn. Er fy mod yn gwybod am nifer o'r llwybrau lleol, roedd hi'n braf cael gweld sut y maent i gyd yn cyd-gysylltu fel fy mod yn gallu trefnu teithiau addas i'r plant."

Gofynnodd Sarah hefyd am sesiwn cyngor yn y cartref gydag ymgynghorydd y tîm. "Rhoddodd lawer o syniadau i ni ar gyfer cael Ollie oddi ar ei 'stabilisers', ac yn y diwedd prynom feic 'tag-a-long' iddo, sydd wedi bod yn agoriad llygad."

Bydd Ollie nawr yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol gyda Sarah bob dydd. "Byddai'n rhaid iddi fod yn dywydd drwg iawn i mi ddefnyddio'r car nawr. Dim ond unwaith rydyn ni wedi bod i'r ysgol yn y car ers i Sustrans ymweld. Dydw i ddim am i Ollie feddwl bod yn rhaid i ni fynd yn y car ar gyfer siwrnai fer."

Caerwysg

Ysgogodd ymweliadau cartref gan Toni, yr ymgynghorydd teithio, Richard Gosney a'i deulu i ddechrau defnyddio eu beiciau ar gyfer siwrneiau rheolaidd yn ystod yr wythnos. Dywed Richard: "Pe bai hyn heb ddigwydd dydw i ddim yn meddwl y byddwn i'n mynd i fy nosbarthiadau nos cyfrifiaduron ar feic - mae'n gwneud i chi feddwl fod dewis arall. Byddaf yn beicio i'r dref gan ei fod ond yn cymryd pum munud yn hirach ar y beic nag ydyw yn y car ac mae'n llawer mwy pleserus nag eistedd mewn traffig."

Mae Richard wedi sylwi hefyd bod ei iechyd wedi gwella ers iddo fod yn teithio mwy ar y beic. "Rwy'n dioddef o asthma a phan arferwn gymryd rhan mewn chwaraeon - a hyd yn oed pan ddechreuais feicio - roeddwn yn gweld fod gormod o straen ar fy ysgyfaint, ond rydw i wedi colli pwysau wrth feicio rhagor ac mae anadlu wedi dod yn hawdd iawn - mae wedi bod yn wych. Mae fel bod yn blentyn unwaith eto, yn mynd yn ôl i gyfnod eich ieuenctid a gallu gwibio i bobman ar eich beic a pheidio â bod yn fyr o anadl."

Does dim rhaid i chi dderbyn ein gair **ni** yn unig

Awdurdod lleol

“Mae’r wybodaeth leol a ddarparwyd i drigolion yn sicr wedi golygu cynnydd mewn teithiau beic ar gyfer hamdden, gwaith ac addysg. Mae’r wybodaeth leol wedi ei thargedu hon wedi grymuso trigolion i ymchwilio ffyrdd newydd ac iachus o deithio.

Mae’r mapiau lleol arbenigol a gynhyrchwyd wedi cynorthwyo nifer o drigolion i ddarganfod bod yna gyfleusterau hamdden lleol a pharciau o fewn taith fer ar droed neu feic. Mae TravelSmart yn cynorthwyo i ddatgloi dymuniad cudd nifer o bobl i newid eu harferion ymddygiad teithio a lleihau’r ddibyniaeth ar eu ceir.”

Andrew Freeman, Rheolwr Datblygu Strategaeth, Priffyrdd Hertfordshire

Gweithiwr proffesiynol iechyd

“Mae cael pobl i symud yn hollbwysig mewn atal, ac yn wir gwyrdroi, y don o ordewdra. Mae llwyddiant profedig TravelSmart, sy’n helpu unigolion i ymgorffori teithio egnïol i’w bywydau, yn awgrymu y dylai fod yn elfen bwysig yn y strategaethau i wella iechyd cymunedau.”

Gabriel Scally, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Iechyd y Cyhoedd ar gyfer y De Orllewin

Teulu

“Rhoddodd TravelSmart olwg ehangach i ni - cefais fy synnu gan faint o wybodaeth a chyngor oedd ar gael. Nid oedd gennym fynediad at amserlenni bysiau cyn hyn a doeddwn i erioed wedi gweld map o lwybrau beicio’r dref. Rydw i wedi dechrau defnyddio’r pedometer yr ydych wedi ei roi i mi i weld a ydw i’n cyflawni’r nifer o gamau a argymhellir bob dydd ac mae fy mab yn mynd ar y bws i’r ysgol erbyn hyn yn hytrach na mynd yn y car, yn bennaf oherwydd yr amserlenni a gefais gennych chi.”

Neil McCarthy, Watford

Gweithredwr trafnidiaeth gyhoeddus

“Mae First Great Western wedi bod â pherthynas waith ardderchog gyda TravelSmart ac rydym yn ddiolchgar am gymorth y rhaglen mewn hyrwyddo ein gwasanaethau trên i gynulleidfa ehangach.

Fel gweithredwr trenau sy’n ymwybodol o’r amgylchedd, rydym wrth ein bodd i weithio’n agos gyda TravelSmart yn eu hymdrech i hyrwyddo teithio iach a chynaliadwy.”

Andy McRae, Rheolwr Gweithredol a Chyhoeddiadau Cwsmeriaid, First Great Western

Am gymryd rhan?

Cred Sustrans y dylid cynnig TravelSmart i bob cartref yn y DU, oherwydd gwyddom nad oes yn rhaid i ddulliau o fynd i'r afael â heriau mawr, megis newid hinsawdd a gordewdra, fod yn ddrud nac yn gymhleth. Fel y dywed un buddiolwr TravelSmart: "Mae TravelSmart y gwneud synnwyr o safbwynt amgylcheddol. Credaf ei bod hi mor bwysig fod pobl yn chwarae eu rhan fach nhw, waeth pa mor fychan ydyw."

Os ydych yn gweithio i awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth gofal sylfaenol, gall TravelSmart eich helpu i fynd i'r afael â thagfeydd traffig lleol ac annog eich cymuned i ddewis teithio mwy iachus ac egnïol. Os hoffech ragor o wybodaeth ynglŷn â sut y gallwch chi neu eich prosiectau lleol chwarae rhan, mae sawl ffordd o gysylltu.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y gallwch gymryd rhan, e-bostiwch: **travelsmart@sustrans.org.uk**

Postiwch unrhyw ymholiadau ysgrifenedig i: **TravelSmart, Sustrans Head Office, 2 Cathedral Square, College Green, Bristol BS1 5DD**.

I siarad ag aelod o dîm TravelSmart yn bersonol, ffoniwch ni yn ystod oriau swyddfa ar: **0117 926 8893**.

Ewch i'n gwe-dudalennau: **www.sustrans.org.uk/travelsmart**

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Sustrans yw elusen trafnidiaeth gynaliadwy flaenaf y DU. Ein gweledigaeth yw byd lle y bydd pobl yn dewis teithio mewn ffyrdd sydd yn llesol i'w hiechyd a'r amgylchedd. Rydym yn gweithio ar atebion ymarferol ac arloesol i'r heriau trafnidiaeth sy'n wynebu pawb ohonom. Sustrans yw'r elusen sy'n gyfrifol am Lwybrau Diogel i'r Ysgol, Bike It, TravelSmart, Teithio Byw, Connect2, Liveable Neighbourhoods, Art and the Travelling Landscape a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol - pob un ohonynt yn brosiectau sy'n newid ein byd fesul milltir.

Os ydych chi'n meddwl fod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn swnio'n synhwyrol, mae mawr angen pobl fel chi i'n helpu i wneud mwy. Drwy roi cyfraniad yn dechrau o £5 y mis byddwch yn dechrau gwneud gwahaniaeth. Heb y gefnogaeth ariannol hon, ni fyddai Sustrans a phrosiectau megis TravelSmart yn bodoli. I gael gwybod rhagor am Sustrans neu i ddod yn Gefnogwr Sustrans ewch i **www.sustrans.org.uk** neu ffoniwch **0845 113 00 65**.

Mae TravelSmart Sustrans yn derbyn cefnogaeth hael gan:

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

defra
Department for Environment Food and Rural Affairs

a nifer o awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill.

Prif Swyddfa: Sustrans, 2 Cathedral Square, College Green, Bristol, BS1 5DD

Ffotograffiaeth: Sustrans
Dylunio: www.trmvs.co.uk
Argraffu: argraffwyd ar Revive 100 Offset. Mae hwn yn bapur achrededig FSC a wnaed gan ddefnyddio 100% o wastraff ôl-ddefnyddiwr.

©Sustrans Medi 2009
Elusen Gofrestredig Rhif 326550 (Cymru a Lloegr)
SCO39263 (Yr Alban)
Rhif Cofrestru TAW. 416740656

Eu cael nhw i feddwl
ar y llwybr cywir.
YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT